TAG UG/SAFON UWCH

TAG UG/SAFON UWCH CBAC

# LLYWODRAETH A GWLEIDYDDIAETH

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB

Addysgu o 2017

I'w ddyfarnu o 2018 (UG)
I'w ddyfarnu o 2019 (Safon Uwch)

Fersiwn 4 Tachwedd 2022



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll. | 19 |
| 3 | Newidiwyd y cyfeiriadau at Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac Aelodau Cynulliad (AC) i adlewyrchu'r newidiadau a ddaeth yn weithredol ym mis Mai 2020. | 8 a 10 |
| 4 | Rydym wedi addasu’r ymhelaethiad yn adran 1.1.1 drwy ddileu’r cyfeiriadau at gyfreithiau a chytuniadau Ewropeaidd nad ydynt yn berthnasol i Gyfansoddiad Prydain mwyach.<br><br>Rydym hefyd wedi addasu’r ymhelaethiad yn adran 1.1.3 i ddangos ‘Brexit’ fel un enghraifft o’r ‘byd sy’n newid’. | 8<br><br>9 |

# TAG UG ac UWCH CBAC LLYWODRAETH A GWLEIDYDDIAETH

## I'w addysgu o 2017
## UG i'w ddyfarnu o 2018
## Safon Uwch i'w dyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Meini Prawf Cymeradwyo TAG UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth a'r Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau TAG UG ac Uwch sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TAG newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017.

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r asesu** | | **2** |
| 1. | **Rhagarweiniad** | **5** |
| | 1.1. Nodau ac amcanion | 5 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 6 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 6 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 7 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 7 |
| 2. | **Cynnwys y pwnc** | **8** |
| | 2.1 UG Uned 1 | 8 |
| | 2.2 UG Uned 2 | 11 |
| | 2.3 U2 Uned 3 | 14 |
| | 2.4 U2 Uned 4 | 16 |
| 3. | **Asesu** | **18** |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 18 |
| 4. | **Gwybodaeth dechnegol** | **19** |
| | 4.1 Cofrestru 19 | |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 20 |


© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG ac UWCH LLYWODRAETH A GWLEIDYDDIAETH (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESU

Mae'r fanyleb hon wedi'i rhannu'n gyfanswm o 4 uned, 2 uned UG a 2 uned U2. Mae'r pwysoli a nodir isod yn cael ei fynegi yn nhermau'r cymhwyster Safon Uwch llawn.

### UG (2 Uned)

UG Uned 1: Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster 80 marc

Cymysgedd o gwestiynau strwythuredig a chwestiynau ymateb estynedig.

**Adran A**
Dau gwestiwn gorfodol.

**Adran B**
Un cwestiwn o ddewis o ddau.

**Adran C**
Dau gwestiwn o ddewis o dri.

UG Uned 2: Byw a chyfranogi mewn democratiaeth
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster **80** marc

Cymysgedd o gwestiynau strwythuredig a chwestiynau ymateb estynedig.

**Adran A**
Dau gwestiwn gorfodol.

**Adran B**
Un cwestiwn o ddewis o ddau.

**Adran C**
Dau gwestiwn o ddewis o dri.

© WJEC CBAC Ltd.

## Safon Uwch (yr uchod ynghyd â 2 uned bellach)

**U2 Uned 3: Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster — **120** marc

Cymysgedd o gwestiynau strwythuredig a chwestiynau ymateb estynedig.
**Adran A**
Dau gwestiwn gorfodol.

**Adran B**
Dau gwestiwn o ddewis o dri.

**Adran C**
Un cwestiwn gorfodol.

**U2 Uned 4: Llywodraeth a Gwleidyddiaeth UDA**
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 30 munud
30% o'r cymhwyster — **120** marc

Cymysgedd o gwestiynau strwythuredig a chwestiynau ymateb estynedig.
**Adran A**
Dau gwestiwn gorfodol.

**Adran B**
Dau gwestiwn o ddewis o dri.

**Adran C**
Un cwestiwn gorfodol.

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau. Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2018.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2019.

**Rhif y Cymhwyster ar restr The Register:**
**TAG UG: 603/1987/2**
**TAG Safon Uwch: 603/1979/3**

**Rhif Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar restr QiW:**
**TAG UG: C00/1169/9**
**TAG Safon Uwch: C00/1157/8**

© WJEC CBAC Ltd.

# TAG UG ac UWCH LLYWODRAETH A GWLEIDYDDIAETH

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac amcanion

Mae'r cymhwyster TAG CBAC hwn mewn Llywodraeth a Gwleidyddiaeth yn cynnig cwrs astudio eang, cydlynol, boddhaol a gwerth chweil. Mae'n annog dysgwyr i feithrin hyder mewn gwleidyddiaeth ac agwedd gadarnhaol tuag at y pwnc, ac i gydnabod pa mor bwysig yw'r pwnc yn eu bywydau eu hunain ac i gymdeithas.

Mae manyleb CBAC TAG UG ac Uwch Llywodraeth a Gwleidyddiaeth CBAC yn annog dysgwyr i feithrin y canlynol:

- gwybodaeth a dealltwriaeth am strwythurau a materion gwleidyddol cyfoes yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig (DU)
- gwybodaeth a dealltwriaeth am strwythurau a materion gwleidyddol byd-eang ehangach
- gwybodaeth a dealltwriaeth am y dylanwadau a'r buddiannau sy'n effeithio ar benderfyniadau ym maes llywodraeth a gwleidyddiaeth
- gwybodaeth a dealltwriaeth am hawliau a chyfrifoldebau unigolion a grwpiau
- ymwybyddiaeth o natur newidiol gwleidyddiaeth a'r perthnasoedd rhwng syniadau, sefydliadau a phrosesau gwleidyddol
- y gallu i ddadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth wleidyddol mewn ffordd feirniadol i lunio dadleuon a rhoi barn
- diddordeb mewn gwleidyddiaeth gyfoes ac ymgysylltiad â'r pwnc.

Yn y fanyleb hon, mae cyfle i ddysgwyr ysgrifennu ymatebion estynedig a dangos ansawdd eu cyfathrebu ysgrifenedig, gan gynnwys gwneud defnydd priodol o atalnodi a gramadeg.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Y ganolfan sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad at gwrs sy'n dilyn y fanyleb hon. Mae'n rhesymol derbyn y bydd llawer o'r dysgwyr wedi ennill cymwysterau sy'n cyfateb i Lefel 2 CA4. Bydd sgiliau Rhifedd/Mathemateg, Llythrennedd/Saesneg a Thechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn sylfaen dda ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a sefydlwyd ar lefel TGAU.

Mae'r fanyleb hon yn gweithredu fel sylfaen addas ar gyfer astudio llywodraeth a gwleidyddiaeth neu faes perthynol drwy ddilyn amrywiaeth o gyrsiau addysg uwch, symud ymlaen i'r lefel nesaf o gymwysterau galwedigaethol neu gyflogaeth. Yn ogystal, mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

Nid yw'r fanyleb hon yn benodol i oedran ac felly mae'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr barhau i ddysgu gydol oes.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau amrywiaeth eang o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Caiff addasiadau rhesymol eu gwneud ar gyfer rhai dysgwyr fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. mae hawl gan ymgeiswyr i ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn nogfen y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y Cyd-gyngor Cymwysterau (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o’r asesiad.

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy'r Dystysgrif Her Sgiliau sy'n rhan o Fagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, dylai dysgwyr gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai gwneud hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r byd.

© WJEC CBAC Ltd.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Bydd y fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i feithrin amrywiaeth eang o sgiliau, gan gynnwys: y gallu i ddeall, cyfosod a dehongli gwybodaeth wleidyddol; dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth wleidyddol yn feirniadol, gan arwain at gasgliadau wedi'u rhesymu; nodi cysylltiadau, nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng agweddau ar y meysydd a astudir; dethol deunydd perthnasol i lunio a mynegi dadleuon mewn ffordd glir a rhesymegol gan ddefnyddio geirfa wleidyddol briodol.

Ar lefel UG, bydd dysgwyr yn astudio dwy uned orfodol gan feithrin gwybodaeth a dealltwriaeth eang am y system wleidyddol yng Nghymru a'r DU. Mae'r uned gyntaf yn canolbwyntio ar y drefn lywodraethu, gan ystyried strwythurau seneddol, adrannau gweithredol craidd a llywodraethiant aml-lefel yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol. Mae'r ail uned yn canolbwyntio ar gyfranogiad ac ymddygiad pleidleisio, systemau etholiadol, pleidiau gwleidyddol a charfanau pwyso/protest.

Bydd y dysgwyr hynny sy'n symud ymlaen i astudio ar lefel Uwch yn astudio dwy uned orfodol ac yn cael cyfle i arbenigo ymhellach ar lefel U2. Mae'r uned cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol yn canolbwyntio ar feithrin gwybodaeth feirniadol am bedwar traddodiad ideolegol allweddol a'u perthnasedd cyfoes i wleidyddiaeth yng Nghymru ac ar lefel fyd-eang. Mae'r uned llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA yn canolbwyntio ar y syniadau a'r sefydliadau sy'n sail i system wleidyddol America.

## 2.1 UG UNED 1

**Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig**

Mae Uned 1 yn cyflwyno'r ffordd y mae Cymru a'r DU yn cael eu llywodraethu heddiw. Drwy astudio'r Cyfansoddiad; Senedd Cymru a'r Senedd (San Steffan); Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; Y Goruchaf Lys a'r UE, bydd dysgwyr yn gallu trafod, dadansoddi a gwerthuso'r themâu, y materion a'r dadleuon allweddol sy'n gysylltiedig â llywodraethiant yng Nghymru a'r DU.

### 1.1 Sofraniaeth, pŵer ac atebolrwydd

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 1.1.1 Cyfansoddiad Prydain | • Ei natur: anghyfundrefnol, unedol a hyblyg.<br>• Ei ffynonellau: Cyfraith Statud (gan gynnwys Deddfau Llywodraeth Cymru, 1998 a 2006); Cyfraith Gwlad/Cyfraith Gyffredin; Confensiynau; Gweithiau o Awdurdod Cyfansoddiadol.<br>• Egwyddorion y cyfansoddiad: Sofraniaeth Seneddol; Rheolaeth y Gyfraith; Llywodraeth Seneddol; Brenhiniaeth Gyfansoddiadol.<br>• Ei ddiwygio: Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd Cyfansoddiad Prydain a ph'un a oes angen ei ddiwygio. |

© WJEC CBAC Ltd.

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 1.1.2 Y Farnwriaeth yn y DU | • Rôl gyfansoddiadol y Goruchaf Lys.<br>• Pŵer y Goruchaf Lys: Y Llys Apêl Uchaf; Gwahanu Pwerau ac Annibyniaeth y Farnwriaeth; Adolygiadau barnwrol yn ymwneud â'r cyfansoddiad a defnyddio athrawiaeth ultra vires.<br>• Enghreifftiau lle y dyfarnodd y Goruchaf Lys ar faterion cyfansoddiadol.<br>• Dadleuon ynghylch awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru. |
| 1.1.3 Cyfansoddiad Prydain mewn cyd-destun byd-eang. | • Statudau cyfansoddiadol allweddol a chytuniadau sy'n llywodraethu perthynas y DU â chyrff rhyngwladol (gan gynnwys yr UE, NATO a'r Cenhedloedd Unedig).<br>• Y DU a'r byd sy'n newid, e.e. Brexit. |

## 1.2 Llywodraeth y DU

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 1.2.1 Sut mae llywodraeth yn gweithio yn y DU. | • Yr adrannau gweithredol creiddiol.<br>• Rolau, pwerau ac adnoddau Prif Weinidog y DU.<br>• Systemau'r Cabinet yn y DU: aelodaeth; rolau a swyddogaethau; Cydgyfrifoldeb a Chyfrifoldeb Gweinidogol.<br>• Llywodraeth brif weinidogaethol yn y DU.<br>• Rôl y Gwasanaeth Sifil. |
| 1.2.2 Sut mae'r Senedd yn gweithio yn y DU. | • Strwythur, rôl a phwerau'r Senedd: y broses ddeddfwriaethol; gwaith pwyllgorau; Rolau a dylanwad ASau ac arglwyddi'r meinciau cefn; rôl yr Wrthblaid; braint seneddol.<br>• Effeithiolrwydd y Senedd o ran ei rolau deddfu a chraffu. |
| 1.2.3 Sut y sicrheir bod y llywodraeth yn atebol. | • Swyddogaethau craffu'r Senedd mewn perthynas â'r adran weithredol: ffurfiau ac effeithiolrwydd.<br>• Cwestiynau'r Prif Weinidog/Cwestiynau'r Gweinidogion a gwaith pwyllgorau.<br>• Sofraniaeth Seneddol: damcaniaeth ac ymarfer; tra-arglwyddiaeth yr adran weithredol ac unbennaeth etholiadol.<br>• Dadleuon am union leoliad pŵer yn y DU. |

© WJEC CBAC Ltd.

## 1.3 Sut mae datganoli yn gweithio yn y DU

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 1.3.1 Sut mae llywodraeth yn gweithio yng Nghymru. | • Rolau, pwerau ac adnoddau Prif Weinidog Cymru.<br>• System y Cabinet yng Nghymru: aelodaeth; rolau a swyddogaethau; Cydgyfrifoldeb a Chyfrifoldeb Gweinidogol. |
| 1.3.2 Sut mae Senedd Cymru yn gweithio. | • Strwythur, rolau a phwerau Senedd Cymru: y broses ddeddfwriaethol; gwaith pwyllgorau; cyfarfodydd llawn; rolau a dylanwad Aelodau o'r Senedd (ASau); rôl yr Wrthblaid; craffu ar y Llywodraeth.<br>• Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd Senedd Cymru o ran ei rolau deddfu a chraffu. |
| 1.3.3 Effaith a datblygiad datganoli ar y DU. | • Effaith datganoli ar y DU; gan gynnwys rolau a phwerau gwahanol Senedd a Llywodraeth yr Alban; Senedd a Llywodraeth Cymru; Cynulliad a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon, yn ogystal â datganoli yn Lloegr. |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.2 UG Uned 2

**Byw a chyfranogi mewn democratiaeth**

Mae Uned 2 yn cyflwyno'r cysyniad o ddinasyddiaeth weithgar; hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion, rhai o'r ffyrdd y gall dinasyddion gyfranogi mewn democratiaeth a phwysigrwydd ymgysylltu â dinasyddion. Bydd dysgwyr yn gallu trafod, dadansoddi a gwerthuso'r themâu, y materion a'r dadleuon allweddol, a bydd disgwyl i ddysgwyr ymchwilio i ddatblygiadau ac enghreifftiau cyfoes.

### 2.1 Dinasyddiaeth a hawliau

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 2.1.1 Dinasyddiaeth mewn democratiaeth. | • Diffiniad o ddinasyddiaeth (gan gynnwys dinasyddiaeth fyd-eang).<br>• Rhyddid, cydraddoldeb, cyfranogiad a dinasyddiaeth weithgar, Rheolaeth y Gyfraith; amddiffyniad o dan y gyfraith; hawliau lleiafrifoedd; gwahaniaethu cadarnhaol.<br>• Y prif ffynonellau hawliau i ddinasyddion yn y DU, gan gynnwys: y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; Deddf Hawliau Dynol 1998; Bil Hawliau Prydain; deddfwriaeth gyfoes berthnasol gan gynnwys deddfwriaeth ar gydraddoldeb hiliol ac o ran rhywedd. |
| 2.1.2 Pwysigrwydd hawliau ac achosion posibl o wrthdaro rhwng hawliau. | • Hawliau sylweddol dinasyddion: rhyddid mynegiant, rhyddid i ymgysylltu, rhyddid crefydd; yr hawl i ddeisebu; yr hawl i breifatrwydd; hawliau i fwynhau rhyddid a threial teg.<br>• Dadleuon ynghylch pa hawliau y dylai dinasyddion eu cael.<br>• Dadleuon ynghylch achosion o wrthdaro mewn perthynas â mwynhau hawliau: terfynau o ran rhyddid mynegiant; y cyfryngau a phreifatrwydd. |
| 2.1.3 Amddiffyn hawliau dynol. | • Rôl y farnwriaeth (gan gynnwys Adolygu Barnwrol).<br>• Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.<br>• Y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol.<br>• Dadleuon o ran p'un a yw hawliau dinasyddion yn cael eu hamddiffyn yn ddigonol yn y DU. |

© WJEC CBAC Ltd.

## 2.2 Cyfranogiad drwy etholiadau a phleidleisio

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 2.2.1 Pwysigrwydd cyfranogiad mewn democratiaeth ac effeithiau diffyg cyfranogiad. | • Democratiaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol.<br>• Y nifer sy'n pleidleisio; apathi; ymatal; plwraliaeth; elitaeth; dilysrwydd.<br>• Esboniadau o ran pam mae rhai pobl/grwpiau mewn cymdeithas yn cyfranogi mwy nag eraill; dadleuon ynghylch effeithiau hyn. |
| 2.2.2 Systemau etholiadol yn y DU. | • Y Cyntaf-yn-y-Ras; Aelod Ychwanegol; systemau etholiadol Rhestrau Pleidiau a Phleidlais Sengl Drosglwyddadwy: eu manteision a'u hanfanteision gan gynnwys dadleuon ynghylch clymbleidiau a llywodraethau lleiafrifol ac ynghylch tegwch a chyfrannedd.<br>• Effaith systemau pleidleisio ar systemau pleidiau yng Nghymru a'r DU.<br>• Etholiadau allweddol (ar bob lefel) yng Nghymru, gan gynnwys enghreifftiau.<br>• Defnyddio refferenda yng Nghymru a'r DU gan gynnwys enghreifftiau a manteision ac anfanteision. |
| 2.2.3 Ymddygiad pleidleisio. | • Modelau ymddygiad pleidleisio (modelau cymdeithasegol, dewis rhesymegol a falens) gan gynnwys y prif ffactorau tymor hir a thymor byr sy'n dylanwadu ar ymddygiad pleidleisio: ymgyrchoedd; ymgeiswyr; dylanwad y cyfryngau.<br>• Rhesymau dros deyrngarwch pleidiol a dadymochri pleidiol yng Nghymru a'r DU ac i ba raddau y mae hyn yn digwydd. |

© WJEC CBAC Ltd.

**2.3 Cyfranogiad drwy bleidiau gwleidyddol, carfanau pwyso a mudiadau gwleidyddol**

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 2.3.1 Pleidiau gwleidyddol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. | • Yr amrywiaeth o bleidiau gwleidyddol yng Nghymru a'r DU a'u gwahanol ideolegau a llwyfannau/maniffestos; dewis arweinwyr ac ymgeiswyr yn y prif bleidiau.<br>• Rolau a phwysigrwydd aelodau pleidiau.<br>• Dadleuon ynghylch ariannu pleidiau ac ymgeiswyr; 'arian am ddylanwad'. |
| 2.3.2 Carfanau pwyso a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. | • Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng pleidiau a charfanau pwyso.<br>• Mathau gwahanol o garfanau pwyso gydag enghreifftiau.<br>• Sut mae carfanau pwyso yn dylanwadu: mannau mynediad; dulliau gan gynnwys gweithredu uniongyrchol a lobïo; defnyddio'r cyfryngau; aelodaeth.<br>• Ffactorau sy'n dylanwadu ar lwyddiant carfanau pwyso gydag enghreifftiau.<br>• Dadleuon ynghylch p'un a yw carfanau pwyso yn atgyfnerthu democratiaeth neu'n ei gwanhau. |
| 2.3.3 Mudiadau cymdeithasol a chyfranogiad mewn gwleidyddiaeth. | • Nodweddion tebyg a gwahaniaethau rhwng carfanau pwyso a mudiadau cymdeithasol.<br>• Aelodaeth a nodau mudiadau cymdeithasol; dulliau ac adnoddau gan gynnwys defnyddio technolegau newydd.<br>• Natur fyd-eang rhai mudiadau cymdeithasol.<br>• Y mudiad i fenywod a'r mudiad amgylcheddol fel enghreifftiau o fudiadau cymdeithasol.<br>• Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd mudiadau cymdeithasol. |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.3 UG UNED 3

**Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol**

Mae Uned 3, cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol, yn cynnwys astudio damcaniaethau gwleidyddol a sut maen nhw'n cael eu cymhwyso. Bydd dysgwyr yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth feirniadol am amrywiaeth o draddodiadau ideolegol: rhyddfrydiaeth, ceidwadaeth, sosialaeth, comiwnyddiaeth a chenedlaetholdeb, a'u perthnasedd cyfoes. Wrth iddyn nhw astudio effaith syniadau gwleidyddol ar wleidyddiaeth fyd-eang, disgwylir i ddysgwyr astudio o leiaf dau ranbarth global yn Affrica, Gogledd, Canolbarth a De America, Asia ac Ewrop.

### 3.1 Rhyddfrydiaeth

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 3.1.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol. | • Tarddiad syniadau Rhyddfrydol; Rhyddfrydiaeth Glasurol a Modern: natur ddynol; rhyddid; hawliau naturiol; unigoliaeth; cydraddoldeb; plwraliaeth; rhesymoliaeth; cyfiawnder; goddefgarwch. |
| 3.1.2 Safbwyntiau rhyddfrydol. | • Cysyniadau rhyddfrydiaeth wleidyddol; democratiaeth; gwladwriaeth ryddfrydol; contract cymdeithasol; democratiaeth ryddfrydol; cyfansoddiaeth a rheolaeth y gyfraith.<br>• Rhyddid a hawliau cadarnhaol a negyddol.<br>• Cysyniadau rhyddfrydiaeth economaidd; laissez-faire a safbwyntiau rhyddewyllysol o'r farchnad; y Dde Newydd.<br>• Dadleuon ynghylch rôl y wladwriaeth wrth sicrhau cydraddoldeb; cyfle cyfartal; canlyniadau cyfartal.<br>• Effaith syniadau rhyddfrydol ar bleidiau a mudiadau gwleidyddol cyfoes yng Nghymru.<br>• Effaith syniadau rhyddfrydol ar wleidyddiaeth fyd-eang. |

### 3.2 Ceidwadaeth

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 3.2.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol. | • Tarddiad syniadau Ceidwadol; Traddodiadol; Awdurdodaidd a'r Adain Dde Newydd; elitaeth, unigoliaeth; pragmatiaeth; traddodiad a threfn; cymdeithas organig; hierarchaeth; anghydraddoldeb naturiol; awdurdod; eiddo; rhyddewyllysiaeth. |
| 3.2.2 Safbwyntiau ceidwadol. | • Cysyniadau ceidwadaeth wleidyddol a moesol; anghydraddoldeb naturiol/aristocratiaeth; sefydliadau sy'n sail i hyn: y teulu; yr eglwys; natur awdurdod yr uchod.<br>• Dadleuon ceidwadol ynghylch mewnfudo; integreiddio; hawliau lleiafrifoedd; lles. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| | • Ceidwadaeth economaidd; laissez-faire ac ymyriad; rôl y marchnadoedd; neo-ryddfrydiaeth.<br>• Effaith syniadau ceidwadol ar bleidiau a mudiadau gwleidyddol yng Nghymru.<br>• Effaith syniadau ceidwadol ar wleidyddiaeth fyd-eang. |

© WJEC CBAC Ltd.

### 3.3 Sosialaeth a Chomiwnyddiaeth

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 3.3.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol. | • Tarddiad syniadau Sosialaidd; Democratiaeth Gymdeithasol; Sosialaeth Ddemocrataidd a Chomiwnyddiaeth: graddoliaeth; chwyldro; gwrthdaro rhwng dosbarthiadau; cyfiawnder cymdeithasol; cydraddoldeb; cymuned; proletariat; bourgeoisie. |
| 3.3.2 Safbwyntiau sosialaidd. | • Cysyniadau Sosialaeth wleidyddol; dosbarth; cymdeithas; cydraddoldeb; Marcsaeth; Sosialaeth chwyldroadol a seneddol.<br>• Cysyniadau Sosialaeth economaidd; safbwyntiau ar Gyfalafiaeth; eiddo a pherchenogaeth gyhoeddus; perchenogaeth ar y dulliau cynhyrchu; cyfunoliaeth; ailddosbarthu cyfoeth; sosialaeth foesegol.<br>• Effaith sosialaeth ar y mudiad llafur yng Nghymru.<br>• Effaith syniadau sosialaidd ar wleidyddiaeth fyd-eang. |

### 3.4 Cenedlaetholdeb

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 3.4.1 Gwerthoedd a syniadau sylfaenol. | • Tarddiad syniadau Cenedlaetholgar; Dinesig; Ethno-ddiwylliannol; Cenedlaetholdeb Rhyddfrydol a Cheidwadol: gwleidyddiaeth hunaniaeth; cenedl; gwladwriaeth genedlaethol; sofraniaeth; gwladgarwch; cymuned organig; senoffobia. |
| 3.4.2 Safbwyntiau Cenedlaetholgar. | • Ymwybyddiaeth genedlaethol; diffinio cenedl a gwladwriaeth genedlaethol; sofraniaeth genedlaethol; rôl hanes; iaith; diwylliant a symbolau cenedlaethol wrth hyrwyddo hunaniaeth gyfunol.<br>• Cysyniadau Cenedlaetholdeb gwleidyddol; hyrwyddo gwerthoedd cenedlaetholgar a dinasyddiaeth gan y llywodraeth; ethnigrwydd; sefydliadau; ymwahaniaeth a hunanbenderfyniaeth.<br>• Effaith cenedlaetholdeb ar bleidiau a mudiadau gwleidyddol yng Nghymru.<br>• Effaith syniadau cenedlaetholgar ar wleidyddiaeth fyd-eang. |

© WJEC CBAC Ltd.

# 2.4 UG UNED 4

**Llywodraeth a Gwleidyddiaeth UDA**

Mae'r uned hon yn cyflwyno llywodraeth a gwleidyddiaeth UDA i ddysgwyr drwy ystyried tair thema gysylltiedig: democratiaeth yn America, llywodraethiant a chyfranogiad. Bydd dysgwyr yn dadansoddi'r syniadau a'r sefydliadau sy'n sail i system wleidyddol America mewn modd beirniadol. Wrth asesu'r uned hon, bydd credyd yn cael ei roi am gyfeirio'n briodol at ddatblygiadau, materion a dadleuon cyfoes yn y meysydd yr ymdrinnir â hwy.

**4.1 Democratiaeth yn America**

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 4.1.1 Cydraddoldeb, rhyddid a gweriniaetholdeb. | • Tarddiad y Datganiad Annibyniaeth a Chyfansoddiad yr UD a'r egwyddorion sy'n sail iddynt.<br>• Pwysigrwydd y Cyfansoddiad. |
| 4.1.2 Ffederaliaeth. | • Damcaniaethau ffederaliaeth.<br>• Grym ffederal yn erbyn grym talaith. |
| 4.1.3 Y Bil Hawliau. | • Pwysigrwydd y Bil Hawliau<br>• Dadleuon cyfoes ynghylch hawliau sifil a rhyddid sifil yn UDA: perchenogaeth gynnau; y gosb eithaf a phreifatrwydd. |

**4.2 Llywodraeth UDA**

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 4.2.1 Cyngres UDA. | • Y Cyfansoddiad a'r Gyngres.<br>• Sut mae'r Gyngres yn gweithio; (e.e. arweinwyr mwyafrifol a lleiafrifol; Llefarydd y Tŷ; y broses ddeddfwriaethol; y system pwyllgorau; hynafedd; ffilibystriaid; pleidiau sy'n rhan o'r Gyngres; tagfa ddeddfwriaethol; cyfnewid ffafrau (*'log-rolling*' yn Saesneg) a dyrannu arian mewn modd amhriodol er budd lleol (*'pork-barrelling*' yn Saesneg).<br>• Dadleuon ynghylch y gydberthynas rhwng y Gyngres a'r adran weithredol a changhennau barnwrol y llywodraeth. |
| 4.2.2 Arlywydd UDA gartref a thramor. | • Pwerau wedi'u rhestru yr Arlywydd.<br>• Terfynau a chyfyngiadau yn deillio o'r Cyfansoddiad, Y Gyngres a'r Llys Goruchaf.<br>• Dadleuon ynghylch grym a dylanwad cymharol y Cabinet a Swyddfa Weithredol yr Arlywydd.<br>• Rôl ddatblygol Arlywydd UDA gartref a thramor gan gynnwys dadleuon ynghylch effeithiolrwydd a phŵer Arlywydd UDA ac Arlywyddiaeth Ymerodraethol. |

© WJEC CBAC Ltd.

| | |
|---|---|
| 4.2.3 Llys Goruchaf UDA. | • Rôl gyfansoddiadol y Llys Goruchaf a natur grym barnwrol.<br>• Statws y Cyfansoddiad a rôl y Llys Goruchaf wrth gynnal y statws hwnnw.<br>• Effaith achosion nodedig Marbury vs Madison (1803) a McCulloch vs Maryland (1819).<br>• Trafodaethau a dadleuon ynghylch enwebu, penodi a deiliadaeth ynadon y Llys Goruchaf.<br>• Arwyddocâd gwleidyddol y Llys Goruchaf: dadleuon ynghylch effaith cyfansoddiad y Llys Goruchaf o ran ideoleg, rhywedd a chrefydd.<br>• Dulliau rhesymu cyfreithiol: cynseiliau a chydweddiadau; ataliaeth farnwrol ac adeileddiaeth gaeth o gymharu â gweithredaeth farnwrol; dadleuon ynghylch penderfyniadau allweddol mewn achosion hanesyddol a chyfoes.<br>• Dadleuon ynghylch effeithiolrwydd y Llys Goruchaf wrth amddiffyn hawliau dinasyddion. |

## 4.3 Cyfranogiad a democratiaeth yng ngwleidyddiaeth UDA

| Cysyniadau Allweddol | Cynnwys ac ymhelaethu |
|---|---|
| 4.3.1 Etholiadau yn UDA. | • Proses etholiadau arlywyddol: rhagetholiad cudd; systemau rhagetholiadau a chawcws; y confensiynau enwebu cenedlaethol; 'tocynnau' arlywyddol ac is-arlywyddol; y Coleg Etholiadol.<br>• Dylanwad arian a'r cyfryngau yn etholiadau'r UD; gan gynnwys diwygio a rheoleiddio cyllid ymgyrchoedd; rolau Pwyllgorau Gweithredu Gwleidyddol (PAC); uwch-Bwyllgorau Gweithredu Gwleidyddol; grwpiau eiriolaeth eraill ac effaith y cyfryngau cymdeithasol. |
| 4.3.2 Ymddygiad pleidleisio. | • Penderfynyddion ymddygiad pleidleisio tymor hir yn UDA, gan gynnwys: statws economaidd-gymdeithasol; hil ac ethnigrwydd; rhanbarth.<br>• Clymbleidiau pleidleisio craidd a phleidgarwch.<br>• Penderfynyddion ymddygiad pleidleisio tymor byr a diweddar; gan gynnwys: ffactorau ymgyrchu megis ymgeiswyr, materion a chyfnod yn y swydd; taleithiau pendil a phleidleiswyr annibynnol. |
| 4.3.3 Pleidiau gwleidyddol yn UDA. | • Sbectrwm gwleidyddol UDA. Democratiaid a Gweriniaethwyr: yr ideolegau, gwerthoedd a pholisïau gwahanol sydd ganddyn nhw.<br>• Maint y rhaniadau ac undod yn y prif bleidiau: carfanau gan gynnwys yr Adain Dde Grefyddol; Y Blaid Te Parti; y Democratiaid Blaengar; y Democratiaid Newydd.<br>• Rhesymau pam mae dwy blaid yn gryfach; arwyddocâd pleidiau trydyddol ac ymgeiswyr annibynnol. |

© WJEC CBAC Ltd.

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr:

**AA1**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o sefydliadau, prosesau, cysyniadau gwleidyddol, damcaniaethau a materion perthnasol

**AA2**
Dehongli gwybodaeth wleidyddol a'i chymhwyso er mwyn nodi ac esbonio'r hyn sy'n debyg, gwahaniaethau a chysylltiadau perthnasol

**AA3**
Dadansoddi a gwerthuso'r meysydd llywodraeth a'r wleidyddiaeth a astudiwyd er mwyn llunio dadleuon, dod i farn wedi'i chyfiawnhau a dod i gasgliadau.

Mae'r tabl isod yn dangos brasamcan o bwysoli'r amcanion asesu fel canran o'r cymhwyster Uwch llawn, mae pwysoli'r UG mewn cromfachau.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|
| **UG Uned 1** | 10% (25%) | 4% (10%) | 6% (15%) | 20% |
| **UG Uned 2** | 10% (25%) | 4% (10%) | 6% (15%) | 20% |
| **U2 Uned 3** | 9% | 9.5% | 11.5% | 30% |
| **U2 Uned 4** | 9% | 9.5% | 11.5% | 30% |
| **Cyfanswm** | 38% | 27% | 35% | 100% |

© WJEC CBAC Ltd.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Manyleb unedol yw hon sy'n caniatáu am elfen o asesu mewn camau.

Bydd cyfleoedd asesu ar gael yn ystod cyfnod asesu'r haf bob blwyddyn, tan ddiwedd oes y fanyleb hon.

Bydd Uned 1 ac Uned 2 ar gael yn 2018 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster UG am y tro cyntaf yn haf 2018.

Bydd Uned 3 ac Uned 4 ar gael yn 2019 (a phob blwyddyn wedi hynny) a dyfernir y cymhwyster Safon Uwch am y tro cyntaf yn haf 2019.

Gall ymgeiswyr sefyll cymhwyster fwy nag unwaith. Fodd bynnag, os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru am y trydydd tro, yna bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan fydd ymgeisydd yn ailsefyll cymhwyster (dechrau o'r newydd), gall roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| UG Uned 1 | Llywodraeth yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig | 2160U1 | 2160N1 |
| UG Uned 2 | Byw a chyfranogi mewn democratiaeth | 2160U2 | 2160N2 |
| U2 Uned 3 | Cysyniadau a damcaniaethau gwleidyddol | 1160U3 | 1160N3 |
| U2 Uned 4 | Llywodraeth a Gwleidyddiaeth UDA | 1160U4 | 1160N4 |
| Cyfnewid Cymhwyster UG | | 2160QS | 2160CS |
| Cyfnewid Cymhwyster Safon Uwch | | 1160QS | 1160CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

Nid oes unrhyw gyfyngiad ar gofrestru ar gyfer y fanyleb hon gydag unrhyw fanyleb UG neu Safon Uwch CBAC arall.

© WJEC CBAC Ltd.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG UG yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A i E. Bydd y graddau cyffredinol ar gyfer y cymhwyster TAG Uwch yn cael eu cofnodi fel gradd ar y raddfa A* i E. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig). Defnyddir llythyren fach a i e i ddangos graddau unedau ar slipiau canlyniadau ond nid ar y tystysgrifau.

Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf (GMU) mewn manylebau unedol fel ffordd o adrodd, cofnodi a chyfansymio canlyniadau asesiadau uned ymgeiswyr. Mae'r GMU yn cael ei defnyddio fel y bydd ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon yn cael yr un marc unffurf, pryd bynnag y cymerwyd yr uned. Bydd canlyniadau unedau unigol a'r dyfarniad pwnc cyffredinol yn cael eu mynegi fel marc unffurf ar raddfa sy'n gyffredin i bob cymhwyster TAG. Mae cyfanswm o 200 marc unffurf i'r TAG UG a chyfanswm o 500 marc unffurf i'r TAG Safon Uwch. Mae cyfanswm marciau unffurf unrhyw uned yn dibynnu ar y pwysoli am yr uned honno yn y fanyleb.

Mae marciau unffurf yn cyfateb i raddau uned fel a ganlyn:

| | | Gradd yr uned | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Pwysoli'r Uned** | **Marc unffurf mwyaf yr uned** | **a** | **b** | **c** | **d** | **e** |
| **Uned 1 (20%)** | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Uned 2 (20%)** | 100 | 80 | 70 | 60 | 50 | 40 |
| **Uned 3 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |
| **Uned 4 (30%)** | 150 | 120 | 105 | 90 | 75 | 60 |

Mae'r marciau unffurf a enillwyd am bob uned yn cael eu hadio at ei gilydd a seilir gradd y pwnc ar y cyfanswm hwn.

| | | Gradd y cymhwyster | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Marciau unffurf mwyaf** | **A** | **B** | **C** | **D** | **D** |
| **TAG UG** | 200 | 160 | 140 | 120 | 100 | 80 |
| **TAG Safon Uwch** | 500 | 400 | 350 | 300 | 250 | 200 |

Yn yr Uwch, dyfernir Gradd A* i ymgeiswyr sydd wedi ennill Gradd A (400 marc unffurf) yn y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol ac o leiaf 90% o gyfanswm y marciau unffurf ar gyfer yr unedau U2 (270 marc unffurf).



© WJEC CBAC Ltd.